

## Merched y Wawr, Llannau'r Tywi, Trip Dirgel Mehefin 2018

Ar fore Gwener, Mehefin 22, aeth nifer o aelodau MYW Llannau'r Tywi ar drip dirgel i ddathlu blwyddyn lwyddiannus arall. Gyda'r haul yn tywynnu'n braf a phawb mewn hwyliau da, anelodd y bus tuag at y Dwyrain a'r M4. Ymhen dros awr o daith cyrhaeddodd ni'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Cawsom gyfle i gael paned cyn cael ein harwain o gwmpas yr arddangosfa gan ein tywysydd gwybodus o Landysul.

Sefydlwyd y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant yn 1968, pan sylweddolwyd bod y safle ger tŵr Llundain yn rhy fach a dim lle i ymestyn. Felly, eleni mae'n hanner canrif ers ei sefydlu yn Ne Cymru. Diddorol iawn oedd clywed am y broses o gymysgu metelau a'u haddasu i ddisgiau metal gwag cyn cael eu stampio a'u bathu yn ddarnau arian. 'Roedd yn syndod clywed fod y peiriannau gwasgu yn bathu 750 darn y funud, a mwy fyth o syndod oedd bod gymaint â 8/9 biliwn o ddarnau arian yn cael eu cynhyrchu yn flynyddol. Clywsom hanes bathu arian dros y canrifoedd a chael cyfle i werthfawrogi crefftwaith yr engrafwr. Ar y safle maen nhw'n cynhyrchu'r medalau sydd i'w hennill yn y gemau Olympaidd ac i goffau rhyfeloedd y byd. Diddorol oedd gweld arddangosfa ar gyfer darnau o arian wahanol wledydd y byd. Cafodd pawb y cyfle i fathu darn arian dwy bunt i gofio am yr ymweliad.

Ar ôl profiad diddorol ac addysgiadol 'roedd yn bryd cychwyn ein taith fer i bentref Miskin am ginio. Cafwyd croeso a chinio blasus iawn yn y Miskin Arms, bwyty'r cogydd Dudley Newberry. Wrth droi tuag adref 'roedd cyfle i ymweld â thre'r Bontfaen a manteisio ar y tywydd cynnes, braf. 'Roedd yn ddiwrnod hwylus dros ben a phawb wedi cael amser wrth ei bodd.

Bydd y gangen yn cael seibiant dros yr haf cyn cwrdd eto ar y 19eg o Fedi pan fydd croeso cynnes i aelodau newydd. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â'n hysgrifenyddes sef Gwyneth Gruffudd ar 01267 241 703.